# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 24 Tachwedd 2015

Amser y cyfarfod: 13.30

## (300)v4

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Adroddiad ar Daith Cyllideb 2015 - 'Buddsoddi yn y Gymru a Garem'

(30 munud)

### 4 Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol: Nodau'r Cenhedloedd Unedig a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

(30 munud)

### 5 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft

(60 munud)

## 6 Dadl ar Gyfnod 4 y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)

(15 munud)

**NDM5893 Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru).

**Dogfennau Ategol**

Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol

Memorandwm Esboniadol

## 7 Dadl ar Dargedau Tai Fforddiadwy

(60 munud)

**NDM5884 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynnydd diweddaraf tuag at gyflawni targed uwch Llywodraeth Cymru o 10,000 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ystod y Cynulliad hwn, a bod 91 y cant o'r targed hwn wedi'i gyflawni.

Yr ystadegau diweddaraf ar y ddarpariaeth o dai fforddiadwy yng Nghymru 2014-15 (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y Gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Paul Davies (Preseli Sir Benfro)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r angen i ddod ag argyfwng tai Cymru i ben ac yn gresynu at y ffaith nad oes unrhyw gysylltiad rhwng targed tai fforddiadwy Llywodraeth Cymru a nifer y bobl sydd angen tai.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gwaith ymchwil yr Athro Holmans sy'n nodi os bwriedir cwrdd â'r angen a'r galw am dai yng Nghymru yn y dyfodol, mae angen dychwelyd i gyfraddau adeiladu tai nas gwelwyd ers bron 20 mlynedd a chynnydd yng nghyfradd twf tai fforddiadwy.

Adroddiad y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru - 'Future Need and Demand for Housing in Wales' (Saesneg yn unig)

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylid dyblu'r targed ar gyfer adeiladu tai fforddiadwy yn ystod tymor nesaf y Cynulliad.

## 8 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 25 Tachwedd 2015